OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 426 (Cy.43)

# AER GLÅN, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *1 Mawrth 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *5 Mawrth 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), ac yntau wedi'i fodloni y gall y dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwydd nad yw'n danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 5 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993

**2.** Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemptio rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

### Diwygio Gorchymyn cynharach

**3.** Yn y cofnod sy'n ymwneud â'r Dunsley Yorkshire Stove yn yr Atodlen i Orchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) 1999(**3**)—

(a) yn y golofn o dan y pennawd "Class of fireplace", ar ôl "Dunsley Yorkshire Stove" rhodder "and Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Boiler"; a

(**1**) 1993 p.11.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1999/1515.

(b) yn y golofn o dan y pennawd "Conditions", ar ôl "bearing the reference A/22160" rhodder ", as amended by the manufacturer's instructions dated 4 October 2004 bearing the reference D13 with regard to the Stove and Multifuel Stove and the manufacturer's instructions dated December 2004 bearing the reference GHD/DUN4B/1 with regard to the Multifuel Stove and Boiler".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*John Marek*

1 Mawrth 2005 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

### DOSBARTHAU AR LEOEDD TÂN SY'N ESEMPT

| *Dosbarth ar le tân* | *Amodau* |
|---|---|
| Y Dunsley Yorkshire Woodburning Stove a wneir gan Dunsley Heat Limited | **1.** Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 4 Rhagfyr 2004 a'r cyfeirnod D13W.<br>**2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad yw'n bren sych heb ei drin. |
| Yr Home and Hearth Technologies Quadra-Fire 2100 Millennium Freestanding Wood Burning Stove a wneir gan Hearth & Home Technologies, 1445 North Highway, Colville, WA 99114, UDA. | **1.** Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 9 Hydref 2003 a'r cyfeirnod 250-6931B.<br>**2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad yw'n bren sydd wedi'i sychu ac sydd heb ei drin ac sydd heb fod yn fwy na 38.1 × 10.16 × 5.08cm. |
| Yr Home and Hearth Technologies Quadra-Fire Yosemite Freestanding Wood Burning Stove a wneir gan Home and Hearth Technologies, 1445 North Highway, Colville, WA 99114, UDA. | **1.** Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 4 Mehefin 2003 a'r cyfeirnod 7004-187.<br>**2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad yw'n bren sydd wedi'i sychu ac sydd heb ei drin ac sydd heb fod yn fwy na 38.1 × 10.16 × 5.08cm. |
| Yr Home and Hearth Technologies Quadra-Fire Cumberland Gap Freestanding Wood Burning Stove a wneir gan Home and Hearth Technologies, 1445 North Highway, Colville, WA 99114, UDA. | **1.** Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 8 Gorffennaf 2003 a'r cyfeirnod 7006-186.<br>**2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad yw'n bren sydd wedi'i sychu ac sydd heb ei drin ac sydd heb fod yn fwy na 43.18 × 10.16 × 10.16cm. |
| Modelau Orchard Ovens: FVR Speciale 80, 100, 110, 110 × 160 a 120; TOP Superiore 100 a 120; GR 100, 120, 140, 120 × 160, 140 × 160, 140 × 180 a 180; OT 100, 120, 140, 120 × 160, 140 × 160, 140 × 180 a 180; a'r Valoriani Piccolo; a wneir gan Valoriani o Via Caselli alla Fornace, 213, 50066 Reggello, Firenze, Yr Eidal. | **1.** Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 25 Hydref 2004 a'r cyfeirnodau: |

| *Cyfarwyddyd:* | *Model* |
|---|---|
| OOLInst.1: | FVR 80 |

| *Dosbarth ar le tân* | *Amodau* | |
|---|---|---|
| | OOLInst.2: | FVR 100 |
| | OO LInst.3: | FVR 110 |
| | OOLInst.4: | FVR 120 |
| | OOLInst.5: | FVR 110 × 160 |
| | OOLInst.6: | TOP 100 |
| | OOLInst.7: | TOP 120 |
| | OOLInst.8: | GR 100 ac OT 100 |
| | OOLInst.9: | GR 120 ac OT 120 |
| | OOLInst.10: | GR 140 ac OT 140 |
| | OOLInst.11: | GR 120 × 160 ac OT 120 × 160 |
| | OOLInst.12: | GR 140 × 160 ac OT 140 × 160 |
| | OOLInst.13: | GR 140 × 180 ac OT 140 × 180 |
| | OOLInst.14: | GR 180 ac OT 180 |
| | OOLInst.15: | Valoriani Piccolo |
| | **2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad yw'n bren sych heb ei drin. | |
| Gwresogydd Wood Waste Technology, modelau WT10 ac WT15, a wneir gan Wood Waste Technology. | **1.** Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2005 a'r cyfeirnod WT/a/19/1/05 o ran model WT10 neu'r cyfeirnod WT15/a/19/01/05 o ran model WT15. | |
| | **2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad yw'n dorbrennau caled neu feddal sydd heb eu trin. | |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 ("y Ddeddf") yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar ollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg. Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn a wnaed o dan adran 21 o'r Ddeddf, esemptio dosbarthau penodedig ar leoedd tân rhag darpariaethau adran 20, os yw wedi'i fodloni y gallant gael eu defnyddio at losgi tanwydd nad yw'n danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig. Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn esemptio'r dosbarthau ar leoedd tân a restrir yng ngholofn gyntaf yr Atodlen i'r Gorchymyn rhag darpariaethau adran 20 o'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr ail golofn o'r Atodlen honno.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn diwygio Gorchymyn cynharach a wnaed o dan adran 21 o'r Ddeddf drwy ychwanegu at y rhestr o leoedd tân esempt sydd wedi'u gwneud gan Dunsley Heat Limited a thrwy ddiwygio'r cyfarwyddiadau sy'n gymwys i osod, cynnal a defnyddio'r lleoedd tân hynny.